# Enw'r Ganolfan Yma

## Y weithdrefn gwacáu mewn argyfwng ar gyfer arholiadau

Wrth ymdrin ag argyfwng **rhaid** i chi fod yn ymwybodol o unrhyw gyfarwyddiadau gan asiantaethau lleol neu genedlaethol perthnasol.

Mewn argyfwng megis larwm tân neu rybudd am ddyfais ffrwydrol, **rhaid** i'r goruchwyliwr weithredu fel a ganlyn:

- gofyn i'r ymgeiswyr roi'r gorau i ysgrifennu;
- casglu'r gofrestr presenoldeb (er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr i gyd yn bresennol) a gwacáu'r ystafell arholiadau, yn unol â chyfarwyddiadau'r awdurdod priodol;
- cynghori'r ymgeiswyr i adael yr holl bapurau cwestiynau a sgriptiau yn yr ystafell arholiadai. **Rhaid** cynghori ymgeiswyr i gau eu llyfryn ateb;
- sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gadael yr ystafell mewn tawelwch;
- sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cael eu goruchwylio mor agos â phosibl tra byddant allan o'r ystafell arholiadau fel nad ydynt yn trafod yr arholiad o gwbl;
- gwneud nodyn o amser yr amhariad a'i hyd;
- caniatáu i'r ymgeiswyr gael gweddill yr amser gweithio a bennwyd ar gyfer yr arholiad unwaith y bydd yn gallu ailddechrau;
- os mai ychydig o ymgeiswyr yn unig sydd yna, ystyried y posibilrwydd o fynd â'r ymgeiswyr (a'r papurau cwestiynau a sgriptiau) i fan arall i orffen yr arholiad;
- paratoi adroddiad llawn ar y digwyddiad a'r camau gweithredu a gymerwyd, a'i anfon at y corff dyfarnu perthnasol.